

SUT GWNAETHOM NI?

DARPARU GOFAL A CHYMORTH

Sefydlwyd Hyb Cymunedol a Chymdeithasol hygrych yn Llanilltud Fawr i bobl hŷn.

Cofrestrodd pum asiantaeth gofal newydd, i gefnogi lles ac annibyniaeth i bobl fregus.

Gweithredwyd Rhaglen YG Atal Cynnar ar gyfer pobl ifanc, gan helpu i leihau'r nifer oedd yn dod i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf gan 48.25%

97% o'n sefydliadau bwyd yn cyrraedd safonau hylendid bwyd. Llwyddwyd i erlyn saith safle bwyd oedd yn torri safonau bwyd.

Ymchwiliwyd a rheolwyd 428 o achosion o glefydau trosglwyddadwy mewn cartrefi gofal, ysgolion, meithrinfeydd, a sefydliadau gofal cartref.

Defnyddiodd 1,400 o bobl ifanc agored i niwed brosiectau gwaith ieuenctid, ymyriadau, cefnogaeth a mentora lles ac atal digartrefedd

Gwnaethom recriwtio 13 o ofalwyr maeth newydd, 27 o ofalwyr sy'n berthnasau a 2 ofalwr maeth rhiant a phlentyn.

Mae 73 o ffoaduriaid o Syria ac Affganistan wedi eu hailsefydlu ym Mro Morgannwg.

GWELLA EIN SEILWAITH

Mae £18,738,499 di ymrwymo i gynlluniau ledled y Fro, gyda £5,576,157 yn cael ei wario ar gynlluniau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys trafndiaeth gyhoeddus, rhwydweithiau cerdded a beicio, lleoedd ysgol newydd, mannau agored cyhoeddus a chelf cyhoeddus.

Cafodd 189 o unedau tai fforddiadwy eu darparu, gyda £469,874 pellach o gyfraniadau tai fforddiadwy A106 wedi eu sicrhau.

Rhaglen fuddsoddi yng Nghanol ein trefi, gan gynnwys cynlluniau plannu, trwyddedau caffi newydd, cyfrif nifer ymwelwyr a digwyddiadau rhwydweithio busnes.

Cyllid i gefnogi twf masnachol o fewn ffin yr Ardal Fenter gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu safle coleg newydd yn y maes awyr.

Cyfnewidiwyd contractau â CCF ar ddatblygu coleg wedi'i leoli ar Lannau'r Barri a dechrau gwaith dylunio'r cynllun i drawsnewid y BSC2 yn Y Barri yn swyddfa a chyfleuster hamdden.

Gwellwyd adeiladau ysgolion ar draws Bro Morgannwg.

GWEITHREDU PROSIECT SERO

Prynwyd 12 car trydan i'r gronfa geir fel rhan o'n strategaeth amnewid fflyd a fydd yn lleihau allyriadau gan 26,304kg bob blwyddyn.

Gosodwyd 18 pwynt gwefru cerbydau trydan newydd mewn meysydd parcio yn ein prif drefi ac ar y stryd.

Estynnwyd y cynllun tacs cerbydau trydan.

Mabwysiadwyd polisi sy'n gofyn am osod pwyntiau gwefru trydan mewn datblygiadau newydd yn y Fro.

Dyluniwyd cynlluniau tai cyngor gyda thechnoleg werdd.

100% o oleuadau ein prif strydoedd wedi'u trosi i LED - bron 15,000 o lusernau.

Sicrhau cyllid ar gyfer 6 chynllun Teithio Llesol ychwanegol i gefnogi newid ymddygiad, gan gynnwys ymestyn isadeiledd beiciau OVO, gosod pypiau beic/gorsafoedd atgyweirio.

18 o ysgolion wedi cofrestru gyda phrosiect WOW Strydoedd Byw sy'n annog plant i gerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol.

Cyllid i ddiogelu dyfodol gwasanaeth Greenlinks. Fel rhan o Brifddinas-ranbarth Caerdydd.

TRAWSNEWID Y FFORDD RYDYN NI'N GWEITHIO

Drwy ein Cronfa Cymunedau Cryf, fe wnaethon ni gefnogi 26 grŵp a sefydliad sy'n cael eu harwain gan y gymuned yn ariannol. Mae 22 o wardiau wedi cael £1.127m o gyllid.

Mae ein rhaglen Buddion Cymunedol wedi cefnogi: Benthycu Symudol yn y Fro; adnewyddu Neuadd Sgowtiaid y Rhws, hysbysebu ar gyfer grŵp cymorth Metalidads, prosiect gweithredu hinsawdd gyda Chyngor Cymuned Llanbedr-y-fro; gwelliant i gyfarpar chwarae wrth gofeb Brenin Siôr V yn Llandochau ac ymestyn ac adnewyddu llyfrgell gymunedol Y Rhws.

Cwblhawyd cam cyntaf y broses o drosglwyddo safleoedd chwaraeon awyr agored yn llwyddiannus, gyda phob clwb bowllo bellach yn gweithredu'n annibynnol ar y Cyngor.

Adolygwyd y defnydd o'n swyddfeydd yn y dyfodol gyda phrosiect Eich Lle.

Datblygwyd cronfa ddata ymgysylltu â'r cyhoedd a chalendr o weithgareddau a mabwysiadwyd porth 'Cyfranogiad yn y Fro' ar gyfer e-ddeisebau a gweithgareddau ymgysylltu.

YMATEB I'R ARGYFWNG COSTAU BYW

Sicrhawyd 130 o ystafelloedd fel llety brys i bobl ddigartref, gyda gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi cleientiaid i symud yn eu blaen i lety mwy parhaol.

Darparwyd 11 uned llety brys, gydag ail gynllun ar y gweill a fydd yn darparu llety cymhleth â chymorth i'r cleientiaid mwyaf agored i niwed.

Darparwyd Gwely a Brecwast i 930 o bobl.

Defnyddiodd 771 o drigolion Siop Un Stop y Cyngor.

Sefydlwyd siop wybodaeth un stop drws nesaf i bod Bwyd Penarth i gael cyngor ar dai, dyled, cyngor ariannol/budd-daliadau, addysg a sgiliau ac offer chwarae am ddim.

Sefydlwyd grŵp Argyfwng Costau Byw i gefnogi trigolion gydag effeithiau diwygio lles a chostau byw.

Cefnogwyd preswylwyr oedd yn profi ansicrwydd bwyd a lleihawyd gwastraff bwyd.

Cefnogwyd 300 o gyn-filwyr gyda materion digartrefedd, dyled, budd-daliadau, iechyd meddwl a lles. Sicrhawyd £19K mewn cyllid i gefnogi mentrau cynhwysiant digidol ar gyfer cyn-filwyr.

CYNNWYS EIN CYMUNEDAU

Mae trigolion wedi helpu i lunio mannau celf mwy cynaliadwy a chynhwysol fel: Gofod Gwneud yn llyfrgelloedd Penarth a'r Barri; mwy o arddangosfeydd digidol a gweithgareddau digidol; rhaglen o ddigwyddiadau celf masnachol a chymunedol ym Mhafiliwn Penarth gan gynnwys sinema.

Mabwysiadwyd Strategaeth Ymgysylltu Tenantiaid a Lesddeiliaid newydd.

Mwy o denantiaid wedi'u hyfforddi i fod yn Hyrwyddwyr Digidol, yn rhoi roi hyfforddiant a chymorth TGCh i drigolion eraill.

Ymgysylltwyd â chymunedau yn ystadau St Luke a St Paul i wneud y lle yn lanach, yn wyrddach, yn iachach ac wedi'u cysylltu fel rhan o'r Prosiect 'Llechen Lân', gan gynnwys datblygu pod bwyd, ardal chwarae i blant, a gardd gymunedol.

Sicrhawyd bod trigolion ynghlwm wrth brosiectau gwella'r amgylchedd lleol fel ardal chwarae St. David's Crescent, Pafiliwn Belle Vue a chynllun Celf Cyhoeddus Lloches Hanesyddol Penarth.

Canolbwyntiwyd o'r newydd ar gynnwys llais pobl ifanc ym mhob agwedd ar fusnes y cyngor.